Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas y Bryn**

**Cartref Nyrsio Plas y Bryn**
**31 Tan y Bryn Road**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas y Bryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Elmtree Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Tachwedd 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff sy'n eu deall ac yn diwallu eu hanghenion. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys *“a good level of care is provided”* i'r bobl gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cynlluniau personol manwl yn hysbysu'r staff am y cymorth y mae'r bobl am ei gael ganddynt. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r staff yn sicrhau bod eu nodau yn cael eu cyflawni. Mae'r tîm rheoli a'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol â'r bobl. Maent hefyd yn eu hannog i gadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n bwysig iddynt.

Mae'r staff yn mwynhau gweithio yng nghartref Plas y Bryn. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a'u bod yn gallu dysgu a datblygu yn eu rolau. Mae cymorth ychwanegol yn cael ei gyflwyno i'r staff er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu da ar waith ac i roi cyfleoedd iddynt drafod, myfyrio a gwella eu hymarfer.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn cydweithio ac yn gwneud newidiadau er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth, gan ystyried beth sy'n gweithio'n dda ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Mae buddsoddiad wedi cael ei wneud yn y cartref yn fewnol ac yn allanol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am yr hyn y maent am ei wneud bob dydd. Mae cyfarfodydd preswylwyr a chyfarfodydd un i un, yn ogystal ag adolygiadau rheolaidd o'r gofal a'r cymorth, yn rhoi cyfleoedd i'r bobl wneud newidiadau i'w bywydau. Gwrandewir ar y bobl a chaiff eu barn a'u hawliau eu parchu. Gallant fod yn rhan o'r broses o recriwtio staff newydd a chânt eu cynnwys wrth ddewis yr aelodau o staff yr hoffent iddynt eu cefnogi. Gwelsom y rheolwr yn siarad Cymraeg â rhywun, a chawsom wybod fod y dirprwy reolwr a rhai o'r staff gofal a'r staff nyrsio hefyd yn siarad Cymraeg. Mae gan y bobl allwedd ar gyfer eu hystafelloedd eu hunain, a dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn defnyddio ei ffôn symudol ei hun i ffonio ei deulu.

Caiff anghenion corfforol, anghenion iechyd meddwl ac anghenion llesiant emosiynol y bobl eu diwallu. Mae gwasanaethau gofal iechyd ar gael iddynt a chaiff apwyntiadau, atgyfeiriadau a chyfarfodydd eu cynnal â gweithwyr proffesiynol yn ôl yr angen. Mae'r staff yn hybu iechyd a llesiant y bobl a chymerir camau i'w hannog i fyw bywydau iachach. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl. Soniodd y bobl am y pethau y maent yn hoffi eu gwneud, fel chwarae gemau a mynd allan am fwyd a diod. Mae gyrrwr a thrafnidiaeth ar gael iddynt er mwyn iddynt allu mynd allan i wahanol leoedd. Gwelsom ystafell weithgareddau newydd yn cael ei pharatoi a dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn edrych ymlaen at bobi ynddi.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae asesiadau risg ar waith sy'n cynnwys dulliau a strategaethau er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu codi pryderon. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith iddynt eu dilyn. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac y gallant ymddiried ynddynt. Caiff ffurflenni digwyddiadau a damweiniau eu cwblhau yn ôl yr angen a dywedodd y rheolwr wrthym fod y gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael gwybod amdanynt. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol wrthym *“They will notify us of any issues or problems that arise”* gyda'r bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn annog eu hannibyniaeth. Caiff eu hystafelloedd eu personoli a chânt gymorth i'w cadw'n lân ac yn daclus. Mae gwelliannau yn cael eu gwneud i'r cartref drwy waith ailaddurno. Mae'r ardd hefyd yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn i'r bobl allu ei defnyddio a'i mwynhau.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol cywir, manwl a chyfredol. Mae'r cynlluniau a'r wybodaeth berthnasol arall yn fanwl iawn ac yn rhoi gwybod i'r staff gofal sut y gallant gefnogi'r bobl yn y ffordd orau. Mae'r cynlluniau yn cynnwys dewisiadau'r bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau, yn ogystal â rhai arferion penodol iawn y mae angen i'r staff fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad. Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod gofal a chymorth yn cael eu cynnig yn unol â chynlluniau'r bobl. Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, a chaiff unrhyw newidiadau eu cyfleu i'r staff yn ddi-oed.

Darperir gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl. ymgynghorir â nhw a chaiff eu dymuniadau personol ac unrhyw risgiau eu hystyried. Dywedodd un aelod o'r staff *"I feel that we now have more time to spend with specific residents, for example going out for walks", "spending time in people's rooms talking"* a *"making their day more enjoyable for them and providing them with company".* Mae'r bobl yn cyflawni eu nodau gan gynnwys dod o hyd i swydd ystyrlon. Caiff y bobl eu hannog i gynnal cydberthnasau pwysig ac i ailgysylltu ag aelodau o'r teulu gyda chymorth gan y gweithwyr gofal i gysylltu â nhw, i ymweld â nhw ac i dreulio amser yn eu cwmni. Mae gweithgareddau ar gael ac mae unigolyn wedi'i gyflogi i'w hwyluso. Mae ystafell weithgareddau newydd wedi cael ei chreu sy'n cynnwys cegin i'r bobl ei defnyddio er mwyn helpu i wella eu hannibyniaeth a'u sgiliau. Yn ystod ein hymweliad, daeth plant o'r ysgol leol i ganu carolau Nadolig ac roedd aromatherapydd hefyd yn ymweld ag unigolyn. Mae dau gerbyd a gyrrwr penodedig ar gael er mwyn i'r bobl allu mynd allan pan fyddant am wneud hynny. Mae asesiadau, dulliau gweithredu a strategaethau ar gael i'r staff gofal gefnogi'r bobl yn briodol ac i leihau unrhyw risgiau. Anogir risgiau cadarnhaol, sy'n cynnig mwy o gyfleoedd a phrofiadau i wella ansawdd bywyd y bobl ymhellach.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gweithwyr proffesiynol perthnasol ac unrhyw gyngor neu gyfarwyddiadau i'r staff eu dilyn. Caiff yr holl atgyfeiriadau, apwyntiadau a gohebiaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd y bobl eu cofnodi, sy'n rhoi cofnod clir o unrhyw gamau gweithredu a phenderfyniadau a wnaed. Mae sylwadau'r gweithwyr proffesiynol yn cynnwys *"I always find the staff welcoming and knowledgeable"* am y bobl. Mae'r bobl yn cyflawni eu nodau mewn perthynas â'u hiechyd, er enghraifft colli pwysau.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae'r staff domestig yn sicrhau bod y cartref yn lân. Cynhelir archwiliadau rheoli heintiau i nodi unrhyw faterion ac i ymdrin â nhw. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau, mae polisi ar gael iddynt ei ddilyn ac mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael iddynt.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n darparu amgylchedd addas ar eu cyfer. Caiff eu hystafelloedd eu personoli ac maent yn cynnwys eu heiddo personol ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae gan bob unigolyn ei allwedd ei hun ar gyfer ei ddrws ac mae'r staff yn parchu preifatrwydd y bobl. Gall y bobl dreulio amser ag unigolion eraill sy'n byw yno a'r staff yn y lolfa neu'r ystafell fwyta. Roedd addurniadau Nadolig i'w gweld mewn gwahanol ardaloedd. Mae pob rhan o'r cartref yn gynnes ac yn lân. Gwnaed gwelliannau i olwg y cartref ac mae gwaith ailaddurno yn mynd rhagddo. Cadarnhaodd y rheolwr a'r staff eu bod yn gallu prynu unrhyw eitemau sydd eu hangen arnynt. Mae gardd enfawr sy'n cael ei datblygu drwy osod decin ac ardal eistedd i'r bobl eu mwynhau, os bydd y tywydd yn addas.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae systemau ar waith i fonitro a chhynnal gwiriadau o'r amgylchedd a'i gadw'n ddiogel. Caiff archwiliadau eu cwblhau gan gynnwys archwiliadau amgylcheddol ac archwiliadau iechyd a diogelwch er mwyn nodi unrhyw faterion ac ymdrin â nhw. Mae cynllun cynnal a chadw ar waith sy'n dangos pa waith a wnaed eisoes a'r hyn sydd angen ei wneud o hyd. Caiff gwiriadau tân eu cwblhau a'u cofnodi ac mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl. Gwnaethom siarad â'r rheolwr ynglŷn ag ychwanegu mwy o fanylion at y dogfennau hyn a thrafod amlder ymarferion tân â'r gwasanaeth tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cynhwysfawr ar waith sy'n helpu'r gwasanaeth i weithredu'n ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â chartref Plas y Bryn bob tri mis i gael golwg ar y gwasanaeth, i edrych ar y cofnodion ac i siarad â'r bobl a'r staff. Mae hefyd yn cwblhau adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis sy'n ystyried beth sy'n gweithio'n dda ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Caiff amrywiaeth o archwiliadau eu cynnal hefyd er mwyn nodi unrhyw faterion. Mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi sy'n cael ei gefnogi gan y dirprwy reolwr. Mae'r ddau ohonynt yn gyfarwydd iawn â'r gwasanaeth ac yn adnabod y bobl yn dda iawn ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud newidiadau. Mae datganiad o ddiben ar waith, ond mae wrthi'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r trefniadau rheoli presennol. Mae'r rheolwr wrthi'n cyflwyno gwahanol ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol â phawb sy'n gweithio yng nghartref Plas y Bryn. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn canmol y rheolwr yn fawr, gan ddweud ei fod yn setlo'n dda a'i fod wedi dechrau rhoi newidiadau ar waith er gwell. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd fod y rheolwr yn rhoi ei *"professional opinion in relation to care, support and capacity which is always helpful*". Mae sylwadau gan weithwyr proffesiynol yn cynnwys *"All my contact and dealings with the home have only been positive (especially of recent)"* a *"Happy management, happy staff".* Caiff diwylliant cadarnhaol ei hybu â pholisi drws agored. Mae'r tîm rheoli yn arwain drwy esiampl a chaiff gwersi eu dysgu er mwyn sicrhau bod arferion diogel ar waith a bod mwy o gymorth ar gael i'r staff.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi ac sy'n cael eu goruchwylio yn eu rolau. Mae'r gwasanaeth yn cael gafael ar yr holl ddogfennaeth recriwtio berthnasol, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae adolygiad o ansawdd y gofal yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfeirio at ymdrechion i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Caiff rhai aelodau o staff asiantaeth eu defnyddio, sydd eisoes yn gyfarwydd â'r cartref a'r bobl sy'n byw yno. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yng nghartref Plas y Bryn. Mae'r sylwadau yn cynnwys *"I feel that the team works well together, the management are very supportive".* Pan ofynnwyd iddynt am hynny, dywedodd y staff eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi mewn ffordd ragorol neu dda. Mae cynllun cyflogai'r mis ar waith sy'n dathlu aelodau o staff, gan gydnabod eu cyfraniad at y gwasanaeth a rhoi gwobr iddynt i gydnabod y cyfraniad hwnnw. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio yn amlach na'r hyn sy'n ofynnol. Mae system ar alwad ar waith sy'n cael ei datblygu ymhellach. Caiff hyfforddwr ei gyflogi ac mae wrthi'n diweddaru cofnodion hyfforddiant y staff ar hyn o bryd. Mae'r staff o'r farn bod y cyfleoedd dysgu a datblygu a gânt naill ai'n rhagorol neu'n dda. Mae'r sylwadau yn cynnwys *"We get a good amount of training"* a *"I feel that I have been able to progress throughout my career very well".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/02/2024